OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 292

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023

Diwygiadau i Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015

2.—(1) Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (ymgysylltu â'r sector preifat a'r trydydd sector)—

(a) yn lle'r pennawd, rhodder—

"**4.** Ymgysylltu â'r sector preifat, y trydydd sector a chyrff cyhoeddus";

(b) ym mharagraff (1), yn lle "neu unrhyw sefydliad trydydd sector sy'n ymwneud â, neu sy'n ymddiddori mewn," rhodder ", unrhyw sefydliad trydydd sector neu unrhyw gorff cyhoeddus y maent yn credu ei fod yn ymwneud â" ac o flaen y geiriau "i'r boblogaeth leol" mewnosoder ", neu fod ganddo fuddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol,";

(c) yn lle paragraff (2), rhodder—

"(2) At ddibenion y rheoliad hwn—

ystyr "corff cyhoeddus" ("*public body*") yw corff (pa un a yw'n gorfforedig neu'n anghorfforedig) sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus. At ddiben y diffiniad hwn, mae swyddogaeth gyhoeddus yn swyddogaeth sy'n swyddogaeth o natur gyhoeddus at ddibenion Deddf Hawliau Dynol 1998(**2**);

mae i "sefydliad trydydd sector" ("*third sector organisation*") yr un ystyr ag yn adran 16(2) o'r Ddeddf(**3**)..".

(**1**) O.S. 2015/1367 (Cy. 135).
(**2**) 1998 p. 42.
(**3**) Yn adran 16(2) o'r Ddeddf, ystyr "sefydliad trydydd sector" yw sefydliad y gallai person farnu'n rhesymol ei fod yn sefydliad sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i'r gymdeithas.